RHIFYN
ISSUE
51
21.10.22

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Bydd y plant yn gorffen yn yr ysgol ar gyfer gwyliau Hanner Tymor ar 28.10.22 ac yn dychwelyd ar 07.11.22. Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 23.12.22 am 3:30 yp.

Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The children will finish school for the Half Term holiday on 28.10.22 and will return on 07.11.22. The last day of the Autumn Term this year is on 23.12.22 at 3:30 pm.

Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2022-2023
INSET 2022-2023

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 5 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 5 INSET days.

05.09.22	24.07.23
+3 i'w trefnu / *to be arranged*	

FFOTOGRAFFYDD
PHOTOGRAPHER

Cofiwch ddychwelyd archebion lluniau ysgol i'r ysgol erbyn hanner dydd, 28.10.22, os gwelwch yn dda. Gallwch bostio archebion hwyr wedi'r dyddiad yma i'r cyfeiriad sydd i'w weld ar y 'proof'.

Remember to return any school photograph orders to school by midday on 28.10.22, please. You are able to post any late orders after this date to the address which is noted on the 'proof'.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

24.10.22 – Diwrnod y Cenhedloedd Unedig (Llythyr)
United Nations Day (Letter)
24.10.22 - Nosweithiau Agored 1 a 2 (Gwybodaeth) (Letter)
25.10.22 *Open Evenings 1 & 2* (Information) (Letter)
26.10.22 – Disgo y GrhA (Llythyr)
PTA Disco (Letter)
28.10.22 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term
07.11.22 - Brechlyn y Ffliw
Flu Vaccination

LLWYDDIANNAU Y TU FAS I'R YSGOL
ACHIEVEMENTS OUTSIDE OF SCHOOL

Braf iawn yw cael clywed am lwyddiannau'r plant y tu fas i'r ysgol. Cofiwch ebostio'r ysgol os hoffech ein hysbysu am lwyddiannau'ch plant!

It's always great to hear about the children's achievements outside of school life. Remember to email school to let us know of any such achievements!



Llongyfarchiadu i JD am lwyddo i nofio milltir yn ddiweddar. Camp a hanner!
Congratulations to JD for succeeding to swim a mile recently. A feat and a half!



Fis Medi, teithiodd AL i Sheffield i gynrychioli Cymru mewn rownd derfynnol cystadleuaeth trampolîn - Cwpan Sialens Rhyng-Ranbarthol Prydain. Profiad arbennig iddi!
In September, AL travelled to Sheffield to represent Wales in the Final Round of a trampoline competition - British Inter-Regional Challenge Cup. A great experience for her!



Yn ystod gwyliau'r haf, chwaraeodd RM mewn llawer o dwrnameintiau tenis, a chwaraeodd rhai ohonynt mewn grŵp oedran hŷn. Enillodd RM 3 gêm a daeth yn ail mewn pedwerydd. Y twrnamaint diwethaf i RM ei chwarae oedd Pencampwriaethau Cymru a gynhaliwyd ym Mhenarth ddiwedd mis Awst. Clywn fod RM wedi chwarae'n arbennig o dda ac wedi ennill y twrnamaint i'w grŵp oedran. Mae hi bellach yn Bencampwr Cymru Merched dan 8 oed. Da iawn, RM!
During the summer holidays, RM played in many tennis tournaments, some of which she played in an older age group. RM won 3 matches and came runner up in a fourth. The last tournament RM played was the Welsh Championships which took place in Penarth at the end of August. We hear that RM played extremely well and won the tournament for her age group. She is now U8 Girls Welsh Champion. Well done, RM!

Y CYNHAEAF
HARVEST

Diolch yn fawr iawn i chi am anfon cyfraniadau 'bwydydd sych' ar gyfer Banc Bwyd Taf Elai i'r ysgol erbyn 11.11.22. Gweler ein llythyr diweddaraf fan hyn.
Many thanks for sending 'dry food' contributions to school for Taff Ely FoodBank to school by 11.11.22. Please see our recent letter here.

Taff-Ely foodbank
Banc Bwyd Taff-Ely

CYFEIRIADAU EBOST
EMAIL ADDRESSES

Os oes angen cysylltu ag athrawon y dosbarthiadau i drafod materion lefel dosbarth, gweler y cyfeiriadau ebost isod. Gofynnir yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cyfeiriadau ebost hyn ar gyfer materion o frys gan nad yw'r athrawon yn edrych ar y cyfrifon ebost hyn yn ystod y dydd gan eu bod yn brysur yn addysgu'r plant. Mewn argyfwng, cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol ar 01443 237837.

Should you need to contact the class teachers for any class based matters, please see the class email addresses below. You are kindly asked not to use these email addresses in any emergency situation as the teachers do not monitor these accounts during the day since they are busy teaching the children. In any emergency, please contact the School Office on 01443 237837.

Dosbarth 1	1d5@hwbcymru.net
Dosbarth 2	2d5@hwbcymru.net
Dosbarth 3	3d5@hwbcymru.net
Dosbarth 4	4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5	5d5@hwbcymru.net
Dosbarth 6	6d5@hwbcymru.net
Dosbarth 7	7d5@hwbcymru.net
Dosbarth 8	8d5@hwbcymru.net
Dosbarth 9	9d5@hwbcymru.net

Y PARCH. GARDNER
REV. GARDNER

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Gardner am gynnal gwasanaeth arbennig i ni y bore'ma. Edrychwn ymlaen at groesawu Parch. Gardner nôl i'r ysgol yn y dyfodol agos.

Many thanks to the Reverend Gardner for coming along to school to hold a special Harvest assembly with us this morning. We look forward to welcoming Rev. Gardner back to school in the near future.





SENEDD YR YSGOL
SCHOOL PARLIAMENT

Llongyfarchiadau mawr i'r plant isod sydd wedi'u hethol gan eu cyfoedion i fod yn aelodau o bwyllgorau Senedd yr Ysgol 2022-2023.

Many congratulations to the children below who have recently been elected by their peers to sit on the six committees of the School Parliament 2022-2023.













YMWELIAD ADAM COLEMAN
ADAM COLEMAN'S VISIT

Diolch yn fawr iawn i Adam Coleman o Menter Ysgolion Cymraeg am ddod i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaeth arbennig. Neges y stori y tro'ma oedd i ofalu am bawb o'n cwmpas, ein holl eiddo ac i fod yn ddiolchgar am yr hyn sydd gennym.

Many thanks to Adam Coleman from Menter Ysgolion Cymraeg for coming along to school recently to hold a special assembly. This term's message was to look after everyone around us, to care for our possessions and to be thankful for everything we have.



NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS



Yn dilyn y cyfarfodydd torfol 'Cwrdd â'r Athrawon', cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Tymor yr Hydref i chi drafod ag athrawon eich plant un-i-un ar-lein ar Hydref 24ain a 25ain. Cofiwch wneud apwyntiad cyn i'r system gau ar 23.10.22, os gwelwch yn dda. Apwyntiadau 10 munud fydd y tymor hwn i drafod sut mae'ch plant yn ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd.

*Following the whole group 'Meet the Teachers' meetings, Autumn Term Progress Meetings for you to speak with your children's class teachers online on a one-to-one basis will be held on **October 24th and 25th**. Please keep these dates free. Remember to make an appointment before the system closes on 23.10.22, please. These meetings will be 10 minutes long and offer you the opportunity to discuss how your children are settling in to their new classes.*